**Alun Davies AC/AM**
**Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes**
**Minister for Lifelong Learning and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA(L)ARD/0234/17

Lynne Neagle AC, Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

SeneddCYPE@assembly.wales

11 Ebrill 2017

Annwyl Lynne,

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 22 Mawrth yn gofyn am wybodaeth bellach fel sail i adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor. Isod mae ymatebion i'r cwestiynau ychwanegol a oedd yn eich llythyr. Rwyf hefyd wedi manteisio ar y cyfle i ddatgan fy marn ar nifer o bynciau nad ydynt wedi'u cynnwys yn eich llythyr.

Yn gyntaf, ac yn hollbwysig, rwyf am nodi'n glir beth yw cwmpas y system a sefydlwyd gan y Bil. Mae gan blentyn neu berson ifanc anghenion dysgu ychwanegol os oes ganddynt anhawster neu anabledd dysgu sy'n gofyn am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol. Amlinellir y diffiniadau yn adrannau 2 a 3 o'r Bil ac mae canllawiau ar ystyriaethau ymarferol y diffiniadau hyn wedi'u cynnwys yn y Cod drafft. Y canlyniad yw bod y cohort o ddysgwyr a fydd yn dod o fewn cwmpas y system newydd yn debyg yn fras i'r rhai a chanddynt anghenion addysgol arbennig (gan gynnwys dysgwyr sydd ag anghenion o'r fath ond nad oes ganddynt ddatganiad).

Ymgynghorwyd ar y posibilrwydd o ehangu cwmpas y diffiniad yn 2012. Byddai hyn wedi cynnwys yr holl blant a phobl ifanc o grwpiau lleiafrifol penodol neu grwpiau penodol sy'n agored i niwed a'r rhai ag anghenion gofal iechyd neu broblemau ymddygiad.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Alun.Davies@llyw.cymru
Correspondence.Alun.Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mynegwyd cryn bryder y gallai defnyddio diffiniad eang wanhau'r manteision i'r dysgwyr hynny yr oedd angen cymorth arnynt fwyaf. Yr adborth a gafwyd oedd bod risg, mewn rhai achosion, y gallai'r rhan fwyaf o ddisgyblion mewn dosbarth ddod o fewn y diffiniad hwn. Hefyd, byddai cynyddu nifer y dysgwyr a fyddai o fewn cwmpas y diffiniad yn arwain yn anochel at gynnydd sylweddol yn llwyth gwaith y partneriaid cyflawni, a grŵp eang iawn o ddysgwyr â hawl i Gynlluniau Datblygu Unigol, a fyddai wedi gwneud y broses o weithredu'r newidiadau yn llawer mwy heriol.

Gwrandawsom ar y farn gref honno a mireinio ein cynigion cyn cyhoeddi ein Papur Gwyn yn 2014 ar gynigion deddfwriaethol a'r Bil drafft dilynol, gan sicrhau bod y diffiniad yn parhau i ganolbwyntio ar y dysgwyr hynny y mae angen cymorth arnynt fwyaf drwy'r system newydd. Croesawyd y ffocws mwy penodol hwn mewn adborth a gafwyd i'r ymgynghoriadau.

Mae'n rhaid inni fod yn uchelgeisiol, ac rydym yn uchelgeisiol, ond dim ond os byddant yn ymarferol ac yn realistig y bydd y diwygiadau'n arwain at fudd gwirioneddol. Rhaid inni hefyd dynnu llinellau clir o ran yr hyn sydd o fewn cwmpas y system a'r hyn nad yw o fewn ei chwmpas. Byddai ymestyn y diffiniad i gynnwys anghenion gofal iechyd/cyflyrau meddygol, er enghraifft, yn cynyddu'n sylweddol nifer y dysgwyr sydd â'r hawl i gynllun statudol a'r hawliau sydd ynghlwm wrth hynny. Gallai hynny olygu bod cyflyrau megis alergeddau i bysgnau, asthma neu feigryn yn dod o fewn cwmpas y diffiniad a bod hawliau apelio i'r Tribiwnlys Addysg yn gysylltiedig â hyn. Byddai hefyd yn ymestyn y ddarpariaeth a nodir yn y cynllun - ni fyddai'n gyfyngedig mwyach i ddarpariaeth addysgol neu hyfforddiant, ond byddai hefyd yn cynnwys darpariaeth gofal iechyd nad oedd yn addysgu neu'n hyfforddi. Yn gryno, mae pennu darpariaeth ddysgu ychwanegol ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol yn sylfaenol wahanol ei natur i gefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd.

Ni fyddai ymestyn y system yn y fath fodd yn briodol nac yn gymesur yn fy marn i.

Os oes gan blentyn neu berson ifanc anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys anghenion sy'n cael eu hachosi gan gyflwr meddygol, byddant yn cael eu cwmpasu gan y system a gyflwynwyd gan y Bil. Ond ni fydd anghenion dysgu ychwanegol yn gysylltiedig â phob angen gofal iechyd.

Roeddwn hefyd yn awyddus i fynd i'r afael yn uniongyrchol â'r dystiolaeth a gafodd y Pwyllgor ac a gyflwynwyd imi yn ystod y sesiwn ar 22 Mawrth ynghylch Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Mae hwn yn Fil sydd â'i seiliau mewn hawliau plant; mae'r cyfan yn ymwneud â rhoi mwy o hawliau a hawliau cyfartal i blant. Mae'r Bil yn ymgorffori yn y gyfraith egwyddorion perthnasol y Confensiwn drwy ddarparu ar gyfer dyletswyddau clir ac ymarferol sy'n rhoi hawliau i blant yn y cyd-destun hwn. Er enghraifft, mae gan blant hawliau i ddod â'u hapeliadau a'u hawliadau eu hunain gerbron y Tribiwnlys, i ofyn am adolygiadau o'u Cynllun Datblygu Unigol ac i dderbyn copïau o Gynlluniau Datblygu Unigol a hawliau i wasanaethau eiriolaeth annibynnol, gan sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed. Mae Adran 6 o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r rhai sy'n arfer swyddogaethau o dan y Bil i roi sylw i (ymysg pethau eraill) farn, dymuniadau a theimladau'r plentyn neu'r person ifanc dan sylw.

Os oes diffyg yn y darpariaethau manwl mewn perthynas â hawliau plant, dylid mynd i'r afael â darpariaeth benodol i dargedu'r diffyg. Bydd hynny'n gwarantu hawliau; nid yw rhoi dyletswydd sylw dyledus ar ymarferwyr rheng flaen yn gwneud hynny. Nid yw'n gofyn am ganlyniad penodol, dim ond sicrhau bod ystyriaeth yn cael ei rhoi. Hefyd, gall gosod dyletswydd o'r fath ar gyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol greu effeithiau anfwriadol, megis dargyfeirio amser ac adnoddau o wasanaethau plant drwy greu biwrocratiaeth ddiangen. Felly nid wyf wedi fy argyhoeddi y byddai diwygio'r Bil i gynnwys dyletswydd i roi sylw dyledus yn cryfhau'r ffocws ar hawliau plant yn y Bil.

Hefyd mae un ffaith yr wyf yn teimlo'n gryf amdani, sef bod y Cynulliad eisoes wedi deddfu ar y pwynt hwn ac, yn briodol, wedi gosod dyletswydd ar Weinidogion. Cyfrifoldeb Llywodraethau yw sicrhau bod eu cyfreithiau'n cydymffurfio â'r Confensiwn. Gellir hyd yn oed dweud bod y Llywodraeth, wrth drosglwyddo dyletswyddau sydd wedi'u hanelu at Wladwriaethau i ymarferwyr rheng flaen, yn esgeuluso ei dyletswyddau o dan y Confensiwn. Nid yw hyn yn rhywbeth y gallaf ei gefnogi.

Gan droi at y pwyntiau penodol yn eich llythyr:

<u>Anghenion gofal iechyd</u>

1. **A allai'r Gweinidog wneud sylwadau ar y dystiolaeth y mae'r Pwyllgor wedi'i derbyn bod mecanweithiau cyllido o dan y fframwaith AAA cyfredol yn cael eu defnyddio i gefnogi anghenion gofal iechyd, hyd yn oed pan nad oes gan ddysgwr AAA mewn gwirionedd. Sut y mae'n ymateb i bryderon rhai rhanddeiliaid sy'n dweud y bydd y Bil yn gwaethygu pethau gan ei bod yn bosibl na fydd cyfleoedd o'r fath ar gyfer hyblygrwydd ar gael bellach?**

Ein partneriaid sy'n darparu'r gwasanaethau sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu sut y caiff gwasanaethau eu darparu yn lleol, mewn ymateb i anghenion a chyd-destun lleol. Nid yw'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i adnoddau gael eu defnyddio mewn modd arbennig; mae'r sefyllfa o dan y gyfraith bresennol yn parhau yn hynny o beth. Felly, nid wyf yn argyhoeddedig na fydd cyfleoedd ar gyfer hyblygrwydd ar gael.

Yn wir, mae darpariaethau yn y Bil sy'n cynnig cyfleoedd ar gyfer gwella. Er enghraifft, mae'r dyletswyddau a osodir ar gyrff y GIG i ystyried a oes triniaeth neu wasanaeth sy'n debygol o fod o fudd wrth fynd i'r afael ag ADY y dysgwr ac, os felly, i sicrhau hynny (adran 18); a chyflwyno Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg ym mhob bwrdd iechyd (adran 55). Mae'r dyletswyddau hyn yn rhoi cyfle i wella ymarfer a pherthnasoedd ar lawr gwlad, a bydd y budd yn ymestyn y tu hwnt i blant a phobl ifanc ag ADY.

<u>Cynlluniau Datblygu Unigol</u>

2. **A fydd fersiwn derfynol y Cod yn cynnwys mwy o fanylion na'r drafft presennol?**

Bydd newidiadau'n cael eu gwneud i adlewyrchu unrhyw ddiwygiadau a wnaed i'r Mesur yn ystod ei daith drwy'r Cynulliad, ac i ystyried adborth gan ran ddeiliaid, gan gynnwys ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cod drafft a gaiff ei gynnal maes o law. Yn ogystal, bydd y gwaith o ddatblygu'r Cod hefyd yn cael ei lywio gan y Grŵp Arbenigol ar Gynlluniau Datblygu Unigol, sydd ar hyn o bryd yn ystyried priodoldeb ac ymarferoldeb canllawiau cenedlaethol ar Gynlluniau Datblygu Unigol a throthwyon cymorth, ynghyd â'r Grwpiau Arbenigol eraill.

3. **O dan y fframwaith newydd, bydd gan 90,000 o ddysgwyr ychwanegol hawl i gael Cynllun Ddatblygu Unigol statudol. Pa mor hyderus yw'r Gweinidog ynglŷn â chapasiti'r system i ddarparu cymaint o ddarpariaeth ychwanegol? A fyddai'r Gweinidog yn ystyried rhoi unrhyw fanylion ynghylch trefniadau pontio ar wyneb y Bil?**

Nid yw'r fframwaith newydd yn ehangu nifer y plant a phobl ifanc ag ADY yn y system addysg yn gyffredinol. Mae'r dysgwyr hynny'n bodoli yn awr ac yn cael cymorth o dan y system bresennol drwy gynlluniau statudol neu anstatudol. Mae ein diwygiadau yn canolbwyntio ar gysondeb, gwell cynllunio a sicrhau bod y cymorth cywir yn cael ei ddarparu i'r dysgwyr cywir. Mae'n ymwneud â gwneud pethau'n wahanol, nid gwneud mwy.

Wedi dweud hynny, mae capasiti o fewn y system yn rhywbeth i'w ystyried yn fanwl. Mae gwaith gyda phartneriaid ar y gweill i sicrhau bod y gweithlu'n cael ei baratoi ar gyfer y diwygiadau. Yn ystod y flwyddyn ariannol newydd hon, byddwn yn gwneud gwaith paratoi ac asesiadau i fesur lefel y parodrwydd, a fydd yn bwydo i mewn i gynlluniau gweithredu. Bydd Estyn hefyd yn cynnal adolygiad thematig i asesu parodrwydd partneriaid.

Rydych yn ymwybodol ein bod yn ymgynghori ar opsiynau gweithredu, a fydd yn llywio ein dull gweithredu mewn perthynas â phontio, gan gynnwys sut y bydd plant a phobl ifanc yn cael eu trosglwyddo i'r system Cynlluniau Datblygu Personol. Felly byddai cynnwys trefniadau pontio ar wyneb y Bil yn gam rhagataliol.

4. **I ba raddau y mae perygl y bydd awdurdodau lleol yn defnyddio eu pŵer o dan adran 12 i roi cyfarwyddyd uniongyrchol i ysgolion gynnal Cynllun Datblygu Unigol oherwydd y pwysau ar eu hadnoddau eu hunain yn hytrach nag am ei bod yn rhesymol i ysgolion gymryd cyfrifoldeb?**

Nid yw'r Bil yn cysylltu cynnal Cynllun Datblygu Unigol a sicrhau darpariaeth gyda chyllido'r ddarpariaeth. Mae'r rhain yn faterion ar wahân ac yn y pen draw bydd yn fater i'w benderfynu'n lleol ar sail y cyd-destun penodol, gan gynnwys lefel y cyllid a ddirprwyir i ysgolion.

Yn ymarferol, ar hyn o bryd mae ysgolion ac awdurdodau lleol yn gweithio mewn partneriaeth i gytuno ar yr hyn y gellir ei gyflawni gan ysgolion a'r hyn y dylid ei ddarparu gan awdurdodau lleol. Rwyf am weld ysgolion, awdurdodau lleol ac eraill yn parhau i weithio gyda'i gilydd er mewn diwallu anghenion y plentyn neu'r person ifanc.

5. **Mae'r Cod drafft yn darparu amserlenni dangosol ar gyfer canlyniad atgyfeiriadau ar gyfer asesu, penderfyniadau am ADY a pharatoi Cynlluniau Datblygu Unigol. A fyddai'r Gweinidog yn ystyried rhoi hyn ar wyneb y Bil?**

Mae hyblygrwydd yn bwysig yn hyn o beth. Byddai rhoi amserlenni dangosol ar gyfer canlyniad atgyfeiriadau am asesiad, penderfyniadau am ADY a pharatoi Cynlluniau Datblygu Unigol ar wyneb y Bil yn cyfyngu'r hyblygrwydd hwn. Yn hynny o beth, byddai'n fwy priodol darparu'r manylion hyn drwy ddeddfwriaeth eilaidd.

Er bod amserlenni yn y Cod drafft wedi cael eu profi gyda phartneriaid, bydd y rhain yn cael eu hadolygu wrth i'r manylion gweithredol ddatblygu drwy waith y Grŵp Gweithredu Strategol ADY a'i Grwpiau Arbenigol. Efallai y bydd angen inni hefyd ystyried yr amserlenni yng ngoleuni'r ymgynghoriad ar y Cod ac ystyried beth sy'n briodol ar gyfer y cyfnod pontio ac rwy'n awyddus ein bod yn cael y dewis o wella'r amserlenni ar ôl i'r system ymsefydlu. Byddai is-ddeddfwriaeth yn caniatáu ar gyfer yr hyblygrwydd hwn.

<u>Dyletswyddau ar gyrff iechyd</u>

6. **Sut y mae'r Gweinidog yn ymateb i farn byrddau iechyd (Aneurin Bevan) bod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn tanamcangyfrif y costau a'r goblygiadau o ran adnoddau yn sgil rôl y Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg a'u bod yn poeni ei fod yn y Bil cyn iddo gael ei archwilio a'i brofi'n ddigonol?**

Mae eisoes yn ofynnol i fyrddau iechyd ddarparu gwasanaethau i blant ag anghenion addysgol arbennig, ac mae rôl y Swyddog Meddygol Dynodedig a amlinellir yng Nghod Ymarfer AAA 2004 yn cynnwys cydlynu'r ddarpariaeth a wneir gan y gwasanaeth iechyd.

Rwy'n fodlon bod egwyddorion y rôl yn gadarn ac nid wyf yn poeni am ei chynnwys ar wyneb y Bil. Mae rôl y Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg wedi'i chroesawu gan randdeiliaid, gan gynnwys gweithwyr iechyd proffesiynol, ac mae potensial y rôl wedi cael ei gydnabod yn eang.

Fodd bynnag, derbyniaf fod angen rhoi ystyriaeth i'r manylion gweithredol; mae'r rôl hon yn agwedd allweddol ar y system newydd a rhaid inni gael hynny'n iawn. Dyma'r rheswm dros gynllun peilot y Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg a dod â gweithwyr proffesiynol ynghyd drwy'r Grŵp Arbenigwyr Iechyd i gyd-ddatblygu manylion y rôl. Rwyf wedi ymrwymo i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y gwaith hwn wrth iddo fynd rhagddo.

O ran yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, amcangyfrif gorau yw'r costau a'r goblygiadau o ran adnoddau, yn seiliedig ar feddylfryd ar adeg benodol. Bydd y rhain yn cael eu pwyso a'u mesur wrth i'r manylion gweithredol a manylion y rôl gael eu llunio.

**7. Pa effaith a gaiff y Bil ar fynediad dysgwyr ADY i weithwyr iechyd proffesiynol arbenigol, megis Therapyddion Lleferydd ac Iaith? A fydd yn haws cael mynediad o ganlyniad i system fwy integredig gyda mwy o ymyriadau cynharach (ail amcan cyffredinol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Bil) ynteu'n anoddach oherwydd mwy o alw ar amser gweithwyr proffesiynol oherwydd y nifer fawr o Gynlluniau Datblygu Unigol y gall fod angen iddynt ymwneud â hwy?**

Fel yr amlinellwyd yn yr ymateb i gwestiwn 3, nid yw'r Bil yn ehangu nifer y plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol yn y system addysg yn gyffredinol. Mae'r dysgwyr hynny'n bodoli yn awr ac yn cael cymorth, gan gynnwys cymorth gan weithwyr iechyd proffesiynol pan fo angen, o dan y system bresennol drwy ddatganiad neu gynlluniau anstatudol. Mae ein diwygiadau yn canolbwyntio ar gysondeb, gwell cynllunio a sicrhau bod y cymorth cywir yn cael ei ddarparu i'r dysgwyr cywir. Felly, nid wyf yn rhagweld mwy o alw ar amser gweithwyr proffesiynol.

Fwyfwy, mae plant yn cyrraedd yr ysgol gyda phroblemau cyfathrebu a phroblemau iaith; mae hwn yn fater cymhleth, na fydd bob amser yn gysylltiedig ag iechyd o bosibl. Rwy'n ymwybodol bod therapi lleferydd ac iaith yn lefel ddiangen o ymyrraeth i lawer o blant a phobl ifanc. Mae angen inni sicrhau bod yr ymyriadau ehangach yn iawn ar y cyfleoedd cynharaf. Mater i weithwyr proffesiynol yw ystyried anghenion dysgwyr unigol ac adnabod yr ymyriad mwyaf priodol.

Mae gwaith eisoes yn mynd rhagddo drwy'r rhaglen trawsnewid ADY ehangach i ystyried cyfleoedd i newid arferion mewn meysydd allweddol, megis datblygu lleferydd, iaith a chyfathrebu. Mae fy swyddogion yn gweithio gyda therapyddion lleferydd ac iaith drwy gyfrwng y Grŵp Arbenigol Iechyd i ystyried pa gamau y gellir eu cymryd.

**8. A oes gan y Gweinidog unrhyw sylwadau ar yr awgrym gan y Coleg Nyrsio Brenhinol y gallai fod dyletswydd o fewn y Bil sy'n ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd ystyried y goblygiadau i'r gweithlu ADY yn y gofynion cynllunio'r gweithlu y maent yn eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru? A oes unrhyw ffyrdd eraill y mae ef ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd wedi ystyried cynnwys gofynion y gweithlu ADY yn y broses gyffredinol o gynllunio gweithlu y GIG?**

Mae'n ofynnol i fyrddau iechyd o dan Ddeddf Cyllid GIG (Cymru) 2014 baratoi Cynllun Tymor Canolig Integredig tair blynedd i'w gymeradwyo gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon. Dylai'r cynlluniau fod yn integredig, gyda chydlyniaeth rhwng gwasanaethau, y gweithlu, y seilwaith a'r elfennau ariannol. Mae Fframwaith Cynllunio GIG Cymru yn rhoi arweiniad i sefydliadau ar ddatblygu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig.

Mae hyn yn cynnwys gofyniad i nodi sut y bydd gwasanaethau iechyd mamau a phlant yn cael eu darparu ar draws taith gyfan y claf, ac mae'n cynnwys plant ag anghenion dysgu ychwanegol.

Bydd gan y Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg hefyd rôl bwysig i'w chwarae yn nhrefniadau cynllunio'r gweithlu Byrddau Iechyd. Byddant yn gyfrifol am sicrhau bod gwasanaethau yn eu lle i gefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol ac yn sylfaenol i hyn bydd cynllunio'r gweithlu effeithiol.

Anghytundeb ac apelau

**9. Sut y mae'r Gweinidog yn ymateb i dystiolaeth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a SNAP Cymru bod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn goramcangyfrif i ba raddau y bydd y system newydd yn lleihau anghytundeb a gwrthdaro, ac felly'r arbedion a nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol?**

Fel yr eglurais yn fy llythyr dyddiedig 21 Mawrth, mae'r wybodaeth yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn seiliedig ar ddata a gafodd eu darparu a'u gwirio gan SNAP Cymru. Felly mae'n anffodus ein bod yn y sefyllfa hon.

Fel y dywedais yn fy llythyr, cyfarfu fy swyddogion â SNAP Cymru ar 30 Mawrth. Roedd y cyfarfod yn gynhyrchiol a daethpwyd i gytundeb ar y camau nesaf. Nawr mae fy swyddogion yn gweithio ar y goblygiadau i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar ôl i'r gwaith hwn gael ei gwblhau.

**10. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld y bydd yn digwydd i nifer yr achosion sy'n cyrraedd y Tribiwnlys yn y cyfnod sy'n arwain at gyflwyno'r system newydd, yn syth ar ôl ei chyflwyno ac yn dilyn hynny yn y tymor hir? Pa wersi sy'n cael eu rhoi ar waith yn sgil profiadau'r system tribiwnlysoedd yn Lloegr yn dilyn cyflwyno'r system AAA yn 2014?**

Bydd y Bil yn cael gwared ar y llinell fympwyol rhwng y dysgwyr hynny ag anghenion addysgol arbennig sydd â hawl i gael datganiad a'r rhai sydd â hawl i ddim ond cynllun anstatudol. Yn hytrach, o dan y system newydd, bydd gan yr holl blant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol hawl i gael cynllun statudol. Felly nid oes unrhyw gymhelliant i bwyso am ddatganiad cyn gweithredu a chyflwyno Cynlluniau Datblygu Unigol. Felly, er fy mod yn deall ac yn gwerthfawrogi bod ansicrwydd yn dod law yn llaw â newid, nid oes unrhyw reswm dros gredu y byddai achosion Tribiwnlys yn codi cyn neu ar ôl gweithredu'r cynlluniau.

Bydd y Bil, wrth gwrs, yn rhoi hawl i bobl ifanc apelio am y tro cyntaf, gan sicrhau tegwch o ran hawliau ar draws yr ystod oedran 0-25 lawn. Awgryma'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, fodd bynnag, y bydd y cynnydd canlyniadol yn yr achosion Tribiwnlys yn deillio o'r cynnydd yn yr ystod oedran yn cael ei wrthbwyso gan ostyngiad disgwyliedig yn nifer yr achosion yn gyffredinol, yn sgil mabwysiadu ymarfer sy'n canolbwyntio ar y person a chanolbwyntio ar osgoi a datrys anghytundeb yn gynnar ac yn lleol.

Mae'r system a gyflwynwyd yn Lloegr yn wahanol iawn i'r un yr ydym yn ei chynnig ar gyfer Cymru, ac felly nid oes fawr o werth gwneud cymariaethau. Fodd bynnag, fy nealltwriaeth i yw na fu cynnydd sylweddol yn nifer yr achosion sy'n mynd i Dribiwnlys yn Lloegr.

**11. A all y Gweinidog ddweud wrth y Pwyllgor faint o achosion sy'n ymwneud yn uniongyrchol ag AAA/ADY y mae teuluoedd wedi mynd ar eu trywydd drwy weithdrefn gwneud iawn 'Gweithio i Wella' y GIG?**

Rydym wedi edrych ar y data sydd ar gael a chyhyd ag y gwyddom, nid oes unrhyw achosion yn ymwneud ag AAA/ADY wedi cael eu codi gan deuluoedd drwy broses Gweithio i Wella y GIG. Diffyg ymwybyddiaeth cyffredinol o'r broses yw'r esboniad tebygol am hyn. Bydd gwaith i godi ymwybyddiaeth o'r hawl hon ac i annog teuluoedd i'w defnyddio lle bo hynny'n briodol, yn rhan allweddol o elfen codi ymwybyddiaeth y rhaglen trawsnewid ADY.

<u>Goblygiadau ariannol ac adnoddau</u>

**12. Mae'r Gweinidog wedi rhoi gwybod i'r Pwyllgor am gywiriadau i'r ffigurau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Pa mor hyderus ydyw bod y ffigurau diweddaraf y mae wedi eu darparu i'r Pwyllgor yn gadarn ac yn gywir?**

Ysgrifennais at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'r Pwyllgor Cyllid ym mis Chwefror i dynnu sylw at nifer o fân newidiadau i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol o ganlyniad i achos o gyfrif dwbl. Nodwyd y rhain yn ystod yr adolygiad parhaus o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a bydd y dull hwn yn parhau.

Rwyf eisoes wedi dweud y byddaf yn ysgrifennu at y Pwyllgor ar ôl ymdrin â goblygiadau'r newid yn yr wybodaeth a ddarparwyd gan SNAP Cymru gael eu trafod. Bydd Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig yn cael ei osod gerbron y Cynulliad yn dilyn trafodion Cyfnod 2 yn unol â'r Rheolau Sefydlog.

**13. A all y Gweinidog egluro a yw Llywodraeth Cymru yn dal i ragweld arbediad gweinyddol net yn sgil y Bil? Faint fydd hyn?**

Rydym yn dal i ragweld arbediad gweinyddol net yn sgil y Bil. Canlyniad y camgymeriadau gweinyddol yr ysgrifennais at y Pwyllgorau yn eu cylch ym mis Chwefror yw bod yr arbedion sy'n gysylltiedig â datblygu cynlluniau dysgu a sgiliau wedi'u cyfrif ddwywaith. Felly roedd yr arbedion sy'n gysylltiedig â'r Bil wedi'u goramcangyfrif o £354,700 y flwyddyn.

Mae'r arbedion cyffredinol a amcangyfrifir yn sgil gweithredu'r Bil a amlinellir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn gywir. Dylai'r ffigur fod ychydig dros £13m, neu £3.2ma flwyddyn. Os bydd hyn yn newid yn dilyn yr adolygiad o'r wybodaeth gan SNAP Cymru, byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor.

Beth bynnag fydd y sefyllfa, rwyf wedi nodi'n glir nad ymarfer arbed arian yw hwn ac nid wyf yn disgwyl i unrhyw arbedion a amcangyfrifir arwain at arbedion arian parod. Mae'r diwygiadau'n ymwneud â darparu gwasanaeth o safon a chanolbwyntio ar gefnogi plant a phobl ifanc; dyna'r hyn y dylid canolbwyntio arno a dylid ailfuddsoddi unrhyw arbedion effeithlonrwydd i'r perwyl hwn.

**14. I ba raddau y mae'r £20 miliwn a gyhoeddodd y Gweinidog ar 7 Chwefror ar gyfer gweithredu'r Bil yn adlewyrchu amcangyfrif rhy isel o'r costau pan gyhoeddwyd y Bil a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol? Ynteu a yw'r £20 miliwn ar wahân i'r cyllid ar gyfer gweithredu'r Bil? Faint sydd ar gyfer y Bil ei hun a faint ar gyfer y prosiect trawsnewid ADY ehangach?**

Nid oedd y pecyn cymorth ariannol o £20 miliwn yr wyf wedi'i glustnodi yn adlewyrchiad o danamcangyfrif cost gweithredu'r Bil. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn ymdrin â'r amcangyfrif o'r gost o symud o un system statudol i un arall, nid yw'n costio'r newidiadau ehangach o ran diwylliant ac ymarfer sydd eu hangen ar gyfer trawsnewidiad gwirioneddol. Dyna'r hyn y mae'r £20 miliwn wedi'i anelu ato.

Yn unol â'm llythyr dyddiedig 8 Mawrth at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'r Pwyllgor Cyllid, mae'r £20 miliwn o gyllid ar gyfer gweithredu'r rhaglen gyfan. Mae'n anodd gwahanu gweithgareddau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gweithredu'r Bil. Mae hyn yn ymwneud â dull cyfannol o roi dull gweithredu cwbl newydd ar waith.

Mae fy llythyr hefyd yn rhoi dadansoddiad llawn o sut yr ydym yn disgwyl cyfeirio'r cyllid, o ran prif ffrydiau gwaith y rhaglen: cymorth gweithredu a phontio; datblygu'r gweithlu; cefnogi polisi; a chodi ymwybyddiaeth.

**15. Sut y bydd unrhyw gyllid ychwanegol yn cael ei ddyrannu i awdurdodau lleol - drwy grantiau wedi'u neilltuo ynteu drwy'r Grant Cynnal Refeniw?**

Bydd yr £20 miliwn o gyllid gweithredu yn cael ei weinyddu drwy arian grant, sy'n arfer safonol. Fodd bynnag, rhaid iddi fod yn broses briodol a chymesur. Rwy'n rhagweld dyraniad grant yn hytrach na phroses cais am grant, ond un sy'n seiliedig ar feini prawf clir ynghylch yr hyn yr ydym yn ei ddisgwyl gan bartneriaid.

Rwyf am osgoi creu biwrocratiaeth. Mae'n bwysig bod asiantaethau yn canolbwyntio ar nodi blaenoriaethau ar gyfer gweithredu sy'n cyd-fynd â chyd-destun ardaloedd lleol. Dyma'r dull a fabwysiadwyd gennym gyda'r Gronfa Arloesedd ADY - er bod hynny ar sail ranbarthol - ac mae'n gweithio'n effeithiol.

Bydd y cyllid ar gyfer lleoliadau ôl-16 arbenigol yn cael ei drosglwyddo i'r Grant Cynnal Refeniw, sy'n briodol gan fod hyn yn trosglwyddo arian, nid grant am gyfnod penodol o amser. Mae manylion y trosglwyddiad hwn yn cael eu trafod gan yr Is-grŵp Dosbarthu.

<u>Dyletswydd i ragdybio darpariaeth prif ffrwd</u>

**16. A yw isadran 45 (4), sy'n datgan nad oes rhaid i awdurdod lleol gydymffurfio â chais rhiant i'w blentyn gael ei leoli mewn ysgol arbennig, yn newid y gyfraith bresennol yn hytrach nag egluro'r sefyllfa bresennol? A fydd rhieni sydd am i'w plentyn gael ei addysgu mewn ysgol arbennig yn cael mwy o anhawster i gyflawni hyn nag o dan y system bresennol?**

Mae dymuniad rhiant i blentyn gael ei addysgu mewn ysgol arbennig yn cael gwared ar *ddyletswydd* awdurdod lleol i sicrhau addysg brif ffrwd a gynhelir (o dan adran 45 (1)), ond nid yw'n *ei gwneud yn ofynnol* i'r awdurdod lleol addysgu yn unol â dymuniadau'r rhieni. Bwriad adran 45(4) yw egluro hyn.

Rydym yn ystyried mai'r un yw effaith gyffredinol y gyfraith bresennol a'r effaith o dan y Mesur - hynny yw, nid yw dymuniad rhiant i blentyn fynychu ysgol arbennig wedi'i warantu gan fod ffactorau eraill i'w hystyried.

<u>Hawliau plant anabl</u>

**17. A fyddai'r Gweinidog yn ystyried gosod dyletswydd ar wyneb y Bil i gyrff perthnasol roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau? Os nad yw'n credu bod angen hyn, pam ddim?**

Mae'r diwygiadau hyn yn ymwneud ag anghenion dysgu ac nid anabledd fel y cyfryw, er y gall anabledd olygu bod gan blentyn neu berson ifanc ADY. Mae'r Bil yn adlewyrchu egwyddorion cyffredinol erthygl 3 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau a darpariaethau eraill (gan gynnwys erthygl 24 ar addysg) sy'n berthnasol yn y cyd-destun hwn. Er enghraifft, diben penodol y Bil yw sicrhau bod dysgwyr ag ADY yn cael cymorth effeithiol sy'n benodol i'w hanghenion unigol er mwyn hwyluso eu haddysg a'u

datblygiad.  Mae hefyd yn ceisio manteisio i'r eithaf ar eu cynnwys (gweler adrannau 45 a 46).  Nid yw cyfeiriad penodol at y Confensiwn hwn ar wyneb y Bil yn angenrheidiol nac yn briodol.

Mae dadleuon tebyg o ran y Confensiwn yn berthnasol yma.  Nid wyf yn argyhoeddedig ei bod yn briodol i weithwyr proffesiynol ar y rheng flaen fod yn destun dyletswydd o'r fath, gan fod y Confensiwn wedi'i gyfeirio at Wladwriaethau.  Fodd bynnag, wrth gydymffurfio â'u dyletswyddau o dan y Bil, bydd y gwasanaethau rheng flaen hyn yn gweithredu yn unol â'r egwyddorion cyffredinol yn erthygl 3 o'r Confensiwn, ac mae'r Bil yn adlewyrchu hynny.

<u>Y Cod ADY</u>

**18. Faint o newid y mae Llywodraeth Cymru yn rhag-weld y bydd yn ei wneud i'r Cod cyn cyhoeddi'r fersiwn derfynol ar gyfer ymgynghoriad ar ôl i'r ddeddfwriaeth gael ei gwneud? I ba raddau y bydd yr egwyddorion cyffredinol yn aros yr un fath? Pa fath o newidiadau fydd yn cael eu gwneud?**

Fel yr amlinellwyd yn yr ymateb i gwestiwn 2, rwy'n disgwyl i rai newidiadau gael eu gwneud i'r Cod drafft.  Rwyf wedi nodi'n glir mai drafft yw'r Cod a bod ei ddatblygiad yn parhau. Bydd angen i newidiadau gael eu gwneud i adlewyrchu unrhyw ddiwygiadau i'r Bil, datblygu rheoliadau, cyngor proffesiynol, gan gynnwys ein Grwpiau Arbenigol, ac ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cod drafft a gaiff ei gynnal maes o law. Byddwn yn disgwyl i'r newidiadau hyn ymwneud yn bennaf â materion gweithredol. Ni fyddwn yn disgwyl i'r egwyddorion cyffredinol newid.

Rwy'n gobeithio bod y wybodaeth hon yn ddefnyddiol wrth lywio adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor.  Edrychaf ymlaen at dderbyn eich adroddiad y mis nesaf.

Yn gywir

**Alun Davies AC/AM**
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes
Minister for Lifelong Learning and Welsh Language